

Felinheli ...ar y blaen

Etholiadau Cyngor
Gwynedd
3 Mai 2012

Siân Gwenllian i sefyll eto dros drigolion Felinheli!



Y Blaid yn gweithio dros Felin

Mae'r pentref wedi bod yn mynd o nerth i nerth yn sgil gwaith caled Tîm Plaid Cymru. Mae'r Cynghorydd Sir, Siân Gwenllian wedi bod yn cydweithio efo'r Cyngor Cymuned a lluo o grwpiau yn y pentref i wneud gwahaniaeth.

Mae hi hefyd wedi bod yn gweithio'n agos efo'r Aelod Cynulliad a'r Aelod Seneddol er lles y trigolion.

Yn ôl Cadeirydd Cangen Plaid Cymru y Felinheli, **Margaret Tuzuner**: "Yn y pedair blynedd diwethaf mae Siân wedi gweithio'n ddygn ar ran ein trigolion a'r gymuned. Llwyddodd i sicrhau arian tuag at bob math o brosiectau er budd y gymuned. Yn eu mysg, gwella'r Neuadd Goffa ■ creu'r Felin Sgwrsio ■ ymgyrchoedd baw cŵn ■ ymgyrch codi sbwriel ■ creu gwefan i'r pentref ■ gwella'r Lôn Las a Cherrig yr Afon."

Yn ôl **Siân Gwenllian**: "Mae hi wedi bod yn fraind cael cynrychioli'r ardal ers pedair blynedd a diolch i bawb am eu cefnogaeth. Mi faswn wrth fy modd yn cael fy ail-ethol ar Fai 3 gan fod llawer mwy o waith i'w wneud. Yn benodol, nid wyf am weld y pentref yn mynd yn rhy fawr a'r unig dai newydd sydd eu hangen yw rhai y gall pobl leol eu fforddio."



"Galluog iawn"

Yn ôl Aelod Seneddol Plaid Cymru dros Arfon, **Hywel Williams**: "Mae Siân yn gynghorydd galluog iawn, yn uchel ei pharch yn lleol, ac mae ei hymrwymiad i'r Felinheli yn gryf ac amlwg. Fel eich Aelod Seneddol cefais fudd mawr o'i chyngor a'i gwybodaeth. Rwy'n hynod o falch o'i chymeradwyo fel ymgeisydd Plaid Cymru Felinheli."

Cwis Gŵyl Ddewi

Nos Sul, 4 Mawrth

@ 7.30 yn Tafarn y Fic

Lansio ymgyrch

Siân Gwenllian

Yma i Helpu!

✉ siangwenllian@yahoo.com

☎ **07775642202**

neu yn **Felin Sgwrsio**
bob bore Gwener
www.felinheli.org

Balchder yn ein pentref

Balchder yn ein sir

Balchder yn ein gwlad

www.gwynedd.plaidcymru.org